# SGILIAU A MENTORA
## Mawrth – Mai 2017

### Statws RAG

■ **Coch: Dan y targed** ■ **Oren: Bron a chyrraedd y targed**
■ **Gwyrdd: Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed**

### Hyfforddiant ■

- Mae 873 o geisiadau wedi cael eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod

Gweler dadansoddiad fesul categori hyfforddiant isod:

| Categori | Nifer y Ceisiadau wedi'u "Cymeradwyo" |
|---|---|
| Categori 1 – Gwella'r Busnes | 89 |
| Categori 2 – Technegol | 455 |
| Categori 3 – Defnyddio Peiriannau ac Offer | 329 |
| CYFANSWM | 873 |


Yng Nghategori 1, Marchnata eich Busnes, Cynllunio a Datblygu eich Busnes a Chofnodi Ariannol a TAW oedd mwyafrif y cyrsiau a gefnogwyd.

Yng Nghategori 2, y cwrs gyda'r nifer uchaf o gefnogaeth yw'r cwrs Rheoli Cnofilod ar Ffermydd, gyda 61 cais wedi'u cymeradwyo. Cymeradwywyd hefyd 53 cais ar gyfer Trimio Traed Gwartheg a 44 ar gyfer Ffrwythloni Artiffisial (AI) DIY.

Mae'r nifer uchaf o gyrsiau sy'n cael eu cefnogi yng Nghategori 3 yn cynnwys cyrsiau'n ymwneud â Phlaladdwyr (135 cais), cyrsiau'n ymwneud â Llif Gadwyn (87 cais), a defnyddio Tryc Codi Telesgopig ar gyfer Tir Garw (65 cais).

### Ystadegau Ymgeisio

Nifer y Ceisiadau a Gefnogwyd ar gyfer cleientiaid dan 40 a thros 40




### E-ddysgu ■

**369** O GYRSIAU E-DDYSGU WEDI'U CWBLHAU

| Teitl y Cwrs | Nifer y Cyrsiau a Gwblhawyd |
|---|---|
| Ymwrthedd Anthelminitig ar Ffermydd Defaid | 2 |
| Cloffni mewn Gwartheg | 3 |
| Rheoli Pori | 4 |
| Iechyd a Diogelwch | 348 |
| Rheoli Llyngyr yr Iau ar y Fferm | 2 |
| Manteision Defnyddio Glaswelltau Uchel mewn Siwgr | 2 |
| Adnabod Coed: Coed Collddail | 2 |
| Yn ogystal, cwblhawyd y cyrsiau canlynol unwaith yr un: Cynllunio Busnes, Bioddiogelwch, Cyllid Fferm, Paratoi Cyllideb Fwyd dros y Gaeaf, Goroesiad Perchyll a Chlafr Defaid. | |
| CYFANSWM | 369 |

Mae cyrsiau e-ddysgu eraill ar gael. Cliciwch yma i ddarganfod mwy.

### Cynllun Datblygu Personol – PDP ■


**2,873** CYNLLUN DATBLYGU PERSONOL WEDI'U CWBLHAU ERS MIS HYDREF 2015.

**524** CYNLLUN DATBLYGU PERSONOL WEDI'U CWBLHAU RHWNG MIS MAWRTH A MIS MAI 2017.


### Academi Amaeth ■


**40** AELOD WEDI'U DEWIS AR GYFER DOSBARTH 2017

Sectorau




Demograffeg




Mae niferoedd ymgeiswyr wedi bod yn isel yng Ngogledd Cymru yn y gorffennol, felly fe gynhaliwyd ymgyrch farchnata wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer Gogledd Cymru a derbyniwyd mwy o geisiadau o'r rhanbarth o ganlyniad.



**Megan McNamara**
Sector: Geifr
Lleoliad: Clarbeston Road
Dewiswyd ar gyfer: Rhaglen Busnes ac Arloesedd

Mae Megan yn nyrs rhan amser, ac yn ddiweddar, mentrodd i gynhyrchu a marchnata cig gafr Boer yn uniongyrchol, ac mae'n falch iawn o gael ei dewis ar gyfer yr Academi Amaeth. Mae gan Megan gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer ehangu'r busnes, gan ddyblu ei gyr o 200 o eifr dros y 18 mis nesaf a datblygu ei sgiliau marchnata uniongyrchol.



**Gareth Davies**
Sector: Bîff a Defaid
Lleoliad: Howey, Llandrindod
Dewiswyd ar gyfer: Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig

Mae Gareth yn awyddus i ddechrau datblygu syniadau ac i rwydweithio gyda phobl o'r un meddylfryd o fewn y diwydiant. Mae'n gobeithio y bydd yr Academi Amaeth yn darparu cyfle iddo leisio ei farn ac i roi'r sgiliau a'r hyder iddo allu ysbrydoli eraill.



**Guto Huws**
Sector: Bîff a Defaid
Lleoliad: Trawsfynydd
Dewiswyd ar gyfer: Rhaglen yr Ifanc

Mae Guto yn fyfyriwr amaeth yng Ngholeg Glynllifon ac mae ei fryd ar astudio Amaeth yn y Brifysgol. Mae Guto'n credu'n gryf y bydd Rhaglen yr Ifanc yr Academi Amaeth yn cefnogi ei gais, fel y mae eisoes wedi'i wneud ar gyfer cyn-aelodau eraill. Mae Guto yn awyddus i ennill cymaint o brofiad â phosibl cyn rhoi ei wybodaeth newydd ar waith ar y fferm deuluol.

Cliciwch yma i ddarllen bywgraffiadau'r holl ymgeiswyr a ddewiswyd.

## Agrisgôp


**27** GRŴP GWEITHREDOL gyda **221** AELOD yn mynychu cyfanswm o **55** CYFARFOD

### Pynciau Trafod

Opsiynau gyrfa i fyfyrwyr Gwin Cymreig
Entrepreneuriaeth Iechyd a lles anifeiliaid
Rheoli glaswelltir Defaid Godro
Ffermio Llaeth Organig Byw ar 10 erw
Merched a Brexit Arweinwyr benywaidd
Gwytnwch a rheoli amser Marchnadoedd ffermwyr
Cyfuno technoleg gwres a phŵer
Twristiaeth fferm Bridio Dofednod Wyau Maes
Ychwanegu gwerth at gig oen Magu Cywennod
Bridio gwartheg Jersey Rhannu Syniadau Busnes
Offer Treulio Anaerobig Cynhyrchu cig gafr Boer

## Cyfnewidfa Rheolaeth

Gweler y gwledydd a ymwelwyd â hwy fel rhan o'r rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth wedi'u hamlygu mewn gwyrdd.






**Alwyn Phillips**
Pwnc: Pwnc: Defnyddio techneg Ffrwythloni Artiffisial yng ngheg y groth mewn defaid. Edrych ar ddefnyddio AI Ceg y Groth mewn defaid yn Sweden a Denmarc yn hytrach na thechneg Laprosgopig fel sy'n cael ei ddefnyddio gan amlaf yng Nghymru ar hyn o bryd.

Darllenwch fwy am gyfnewidfa Alwyn yma.



**Bu Gethin Owen yn ymweld â Ffrainc ym mis Mis Mai**

Pwnc: Edrych ar system 'Charpentier' o gnydau gorchudd parhaol ar fferm gymysg sy'n cynhyrchu bîff mewn modd hunangynhaliol ar gnydau porthiant a dyfir gartref.

Darllenwch fwy am gyfnewidfa Gethin yma.




**Daeth partner cyfnewid Sonia Winder, sef Marc Redemann, draw i Gymru o'r Almaen ym mis Mai**

Pwnc: Edrych ar reolaeth coedwig gynaliadwy, yn enwedig coedwigaeth gorchudd barhaol, sut i gynnal bioamrywiaeth, annog ailgenhedlu naturiol ac ymdrin â bygythiadau gan blâu a chlefydau.

Darllenwch fwy am gyfnewidfa Sonia yma.

## Mentora

**65** MENTAI WEDI CAEL EU MENTORA a **13** MENTAI NEWYDD WEDI YMGEISIO AR GYFER MENTORA




Cliciwch yma i weld ein Cyfeiriadur Mentora i ddarganfod mwy am Fentoriaid Cyswllt Ffermio.